# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgorau 1, Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 29 Ionawr 2026

Amser: 09.30 - 10.03

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Elin Jones AS (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan AS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Helen Finlayson, Clerc<br>Steffan Lewis, Dirprwy Glerc |
| Eraill yn bresennol: | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Lisa Griffiths, Clerc Gweithdrefnau<br>Nick Jones, Llywodraeth Cymru<br>Anthony Cooper, Llafur Cymru<br>Jennifer Ramsay, y Ceidwadwyr Cymreig<br>Francess Ifan, Plaid Cymru |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i’r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2025

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 3 Datgan buddiant

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i roi effaith i argymhelliad 1 yn adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar ddatganiadau o fuddiant (gan ddileu'r gwaharddiad ar bleidleisio pan fo Aelod wedi datgan buddiant cofrestradwy). Cytunodd y dylai'r adroddiad sy’n cynnig newid y Rheol Sefydlog adlewyrchu'r rhesymau a roddir gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad dros ddileu'r gwaharddiad ar bleidleisio, a oedd yn cynnwys arddeliad y Pwyllgor hwnnw fod natur y gofyniad ynghylch gwaharddiad ar bleidleisio yn golygu mai dim ond mewn amgylchiadau penodol iawn y byddai'n cael ei sbarduno; nad oes unrhyw achosion ohono'n cael ei sbarduno yn y Senedd/Cynulliad; absenoldeb gofyniad o'r fath mewn deddfwrfeydd eraill yn y DU neu Iwerddon; a bod y ddarpariaeth bresennol wedi bod ar waith ers cyn gwahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa yn ffurfiol yn 2007.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ohirio penderfyniad terfynol ynghylch argymhelliad 2 (datganiadau o fuddiant ar adeg cyflwyno) nes y byddai wedi cael ymateb i'w lythyr at y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn gofyn am sicrwydd y byddai'r canllawiau ar ddatganiadau o fuddiant yn mynd i'r afael â chymhwyso'r gofyniad i Aelodau a oedd yn cyflwyno busnes ar ran eraill (megis Rheolwyr Busnes yn cyflwyno busnes ar ran eu grŵp gwleidyddol, y Trefnydd yn cyflwyno busnes ar ran y llywodraeth, neu gadeiryddion pwyllgorau yn cyflwyno busnes ar ran eu pwyllgor).

## 4 Memoranda Esboniadol

Trafododd y Pwyllgor y papur a chytunodd i wneud y canlynol:

- Cynnig y newidiadau i Reolau Sefydlog 26.6, 26A.13, 26B.9 a 26C.9, a newid cysylltiedig i'r adran ddehongli, i'w gwneud yn ofynnol i'r Aelod sy'n gyfrifol am Fil nodi yn y memorandwm esboniadol y rhesymau pam mae’n fodlon bod y Bil yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn;
- Peidio â chynnig newidiadau i ofynion y memorandwm esboniadol yn Rheolau Sefydlog 26, 26A, 26B a 26C mewn perthynas ag unrhyw oblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 ar effeithiolrwydd darpariaethau'r Bil perthnasol, pe bai'n cael ei ddeddfu; ond argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn cadw'r mater hwn o dan adolygiad.

## 5 Biliau Cyhoeddus

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y Rheolau Sefydlog a chytunodd arno.

## 6 Biliau Aelod

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ar y Rheolau Sefydlog a chytunodd arno.